

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Blaenau Gwent (Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin)

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan Blaenau Gwent i Isadran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Roedd Blaenau Gwent wedi cyflawni pob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, roedd Blaenau Gwent wedi cyflawni 7 yn llawn, 1 yn rhannol ac wedi methu â chyflawni 2.

Mae'r gwasanaethau llyfrgell ym Mlaenau Gwent wedi'u darparu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar ran yr awdurdod lleol. Er bod hyn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd, ymddengys fod y gwasanaeth yn dal ar drugaredd newidiadau i lefel y gwasanaeth a'r gyllideb, a hynny'n effeithio'n arbennig ar ei allu i gyflawni rhai o'r dangosyddion sy'n seiliedig ar adnoddau. Mae staff yn llwyddo i gyflawni cryn dipyn o ystyried y cyfyngiadau ar gapasiti a rhaid eu canmol am hynny, er na ddylid ychwaith ddiystyru cyfraniad staff o wasanaethau cysylltiedig. Er bod y ddarpariaeth ar gyfer 2017/18 wedi'i chynnal, mae'r sefyllfa wrth fynd ymlaen yn llai clir ac mae posibilrwydd y gweithredir rhagor o arbedion gwasanaeth llyfrgell yn y tymor canolig. Gan fod lefelau staff ac adnoddau eisoes ar lefelau isel iawn, mae hyn yn peri cryn bryder ynghylch gwydnwch a pherfformiad y gwasanaeth. Bydd angen i'r gwasanaeth gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau y gall barhau i ddarparu ar gyfer ei gymunedau a chyfrannu at gyflawni blaenoriaethau a nodau strategol ehangach llywodraethau lleol a chenedlaethol.

- Mae'r gefnogaeth ar gyfer iechyd a lles yn gryf ym Mlaenau Gwent gan mai dyma un o'r ychydig awdurdodau sy'n rheolaidd yn cynnig ystod lawn y gwasanaethau o dan DA 4 ym mhob man gwasanaeth sefydlog.
- Mae nifer y benthyciadau llyfrau wedi gostwng, ac mae'n parhau ymysg yr isaf fesul pen y boblogaeth yng Nghymru. Mae colli'r gwasanaeth llyfrgell ysgol yn ffactor yn hyn o beth, ond rhaid hefyd ystyried effaith y buddsoddi isel parhaus yn y gyllideb deunyddiau.
- Mae'r gwariant ar adnoddau yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru, ac nid yw'r targedau ar gyfer derbyniadau a deunyddiau Cymraeg wedi'u cyrraedd unwaith eto er na chafwyd toriadau pellach i'r gronfa lyfrau eleni. Mae'r lefel buddsoddi eithriadol o isel hwn yn parhau i fod yn destun pryder mawr, er y nodir bod yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol yn parhau i drafod lefel briodol i'r cyllid, i gyd-fynd ag anghenion y gymuned.
- Mae lefelau staff yn parhau ymhlith yr isaf yng Nghymru. Caiff hyn ei liniaru gan ddefnydd priodol o staff a gyflogir yn uniongyrchol gan asiantaethau eraill ac adrannau eraill yr awdurdod, sy'n gwneud cyfraniad mawr at y perfformiad mewn meysydd allweddol (yn arbennig DA 3, 4 ac 11).
- Mae'r cynllunio strategol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod rôl ganolog y

gwasanaeth llyfrgell wrth gyflawni ei nodau, ond bydd buddsoddi ar lefelau digonol yn hanfodol wrth sicrhau digon o gapasiti i gael rhagor o fanteision i'r gymuned leol

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau, a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn, ac Adran 3 yn rhoi asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod.

2.1 Hawliau craidd

Mae Blaenau Gwent yn cyflawni'r 12 hawl graidd yn llawn. Mae'n mynd ati'n rhagweithiol i gyrraedd pobl sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn ddigidol, gan gynnwys pobl ddigartref a'r gymuned teithwyr, yn ogystal â darparu ar gyfer defnyddwyr sy'n gaeth i'r cartref drwy wasanaeth danfon i'r cartref. Mae strategaeth farchnata ar waith, gyda chalendr o ddigwyddiadau sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes, lles personol a datblygiad. Mae'r staff wedi'u hyfforddi i fod ag ethos gofal cwsmer cryf, ac maent yn meddu ar gymwysterau perthnasol, megis ECDL ac NVQ mewn Gofal Cwsmer, Cyngor ac Arweiniad neu Sgiliau Llyfrgell a Gwybodaeth.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) yn y fframwaith, a 10 ohonynt yn cynnwys targedau. O'r rhain, mae Blaenau Gwent yn cyflawni 7 yn llawn, un yn rhannol ac yn methu â chyflawni dau.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol:		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓	
c) Cymorth e-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd iach o fyw	✓	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓	
DA 6 Pob man gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau / gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig	✓	Cyflawni'n llawn
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	✓	Cyflawni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	x	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	x	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	x	

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	x	
iii) Cymhwyster/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓	Cyflawni'n llawn

Ni fu newid mawr ym mherfformiad cyffredinol Blaenau Gwent o'i gymharu â blwyddyn olaf y pumed fframwaith o ran y dangosyddion ansawdd hynny lle mae modd cymharu'n uniongyrchol.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sy'n ceisio asesu'r effaith y mae defnyddio'r gwasanaeth llyfrgell yn ei gael ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, a dim ond unwaith yn ystod cyfnod tair blynedd y fframwaith y mae gofyn i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer Dangosydd Ansawdd 1. Mae'r ffigyrau crynhoi isod (isaf, canolrif ac uchaf) felly yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny sy'n nodi eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod y flwyddyn gyntaf hon o'r fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr uchaf.

Nid oedd Blaenau Gwent wedi cynnal arolwg defnyddwyr yn ystod 2017-18.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	<i>amherthnasol</i>		73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	<i>amherthnasol</i>		38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu hamcanion:	98%	4/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i gael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Cyflwynodd Blaenau Gwent bedair astudiaeth achos o'r fath:

- Cymorth i Deuluoedd – roedd teulu ifanc newydd symud i'r ardal ac wedi defnyddio'r llyfrgell i gael gwybod mwy am eu cymuned newydd, gan ddarganfod gwasanaethau megis y clwb gwaith, a defnyddio'r clwb gwaith cartref i gael mynediad TG ar gyfer gwaith ysgol. Mae'r llyfrgell wedi dod yn lleoliad i gwrdd â ffrindiau, gan eu helpu i ddarganfod cariad at ddarllen ac felly wella eu sgiliau llythrennedd.

- Adventures in Wonderland – prosiect darllen arloesol sy'n defnyddio ap i hwyluso grŵp darllen rhithwir, a hwn yn allweddol i helpu oedolyn â syndrom Asperger i oresgyn ei phryder cymdeithasol. Dan anogaeth staff y llyfrgell, aeth ymlaen i fynychu trafodaeth grŵp yn y llyfrgell, ac erbyn hyn mae ganddi'r hyder i fynychu hwnnw'n rheolaidd, ac ymgysylltu â phobl newydd.
- Dysgwyr Cymraeg – gan gydweithio â grŵp dysgu Cymraeg, trefnodd y gwasanaeth Ddiwrnod Cerddoriaeth Gymraeg mewn partneriaeth â Mentrau Iaith ar gyfer pobl o bob gallu yn yr iaith. Darlledwyd y digwyddiad yn fyw ar y radio lleol, ac anogwyd mwy o bobl i ddysgu ychydig o Gymraeg. Mae grŵp darllen Cymraeg wedi'i sefydlu.
- Adfer Iechyd – mae darllenydd brwd yn ystyried bod y llyfrgell wedi cefnogi ei hadferiad ar ôl strôc, gan ei galluogi i adennill ei sgiliau darllen. Roedd y staff wedi ei chyflwyno i lyfrau sain gan helpu i ysgogi ei chof o ran geirfa, ynghyd â'i chynorthwyo i gael mynediad i gyngor ar-lein i reoli ei chyflwr a'i hannog i fynychu gweithgareddau cymdeithasol yn y llyfrgell.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn fodd i wasanaethau fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, a chymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Blaenau Gwent ar gyfer 2017-18. Mae safle'r awdurdod wedi'i roi allan o 22, sef 1 yw'r uchaf a 22 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Mae dangosyddion sydd â llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data ar eu cyfer yn ddangosyddion lle nad oedd yr elfennau data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Pan fo modd, mae ffigyrau a roddwyd ar gyfer blwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er hwylustod cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu nad yw cymharu yn ymarferol. Mae dangosyddion 'fesul pen y boblogaeth' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 y boblogaeth, oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
DA 1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	<i>amherthnasol</i>		24%	83%	94%	90%
c) iechyd a lles	<i>amherthnasol</i>		33%	65%	95%	94%
d) lle diogel a chroesawgar	<i>amherthnasol</i>		90%	98%	100%	98%
DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	<i>amherthnasol</i>		88%	91%	98%	88%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		93%	99%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	<i>amherthnasol</i>		74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	<i>amherthnasol</i>		93%	97%	99%	98%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	<i>amherthnasol</i>		8.5	9.1	9.2	9.4
DA 5 Hyfforddiant i ddefnyddwyr						
a) mynychwyr fesul pen	17	17/22	10	32	238	16
c) hyfforddiant anffurfiol fesul pen	259	9/22	15	199	473	247
DA 6 Mynychwyr mewn digwyddiadau fesul pen y boblogaeth	275	10/22	82	228	684	274
DA 8 Defnyddio'r llyfrgell						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,123	8/22	2,501	4,047	7,014	4,289

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2016/17
b) rhith-ymweliadau fesul pen	311	21/22	243	866	2,211	362
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	100	22/22	100	154	229	89
DA 10 Benthyciadau Cymraeg fesul pen *	4	22/22	4	68	663	
DA 11 Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul pen [^]	9	13/22	5	9	14	9
c) % yr amser ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	37%	5/22	14%	27%	67%	36%
DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	29	12/21	3	31	196	24
b) cyfanswm oriau gwirfoddolwyr	2,406	7/21	40	1,346	11,939	1,954
DA 14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£8,228	19/21	£7,047	£11,915	£17,771	£8,826
b) % ar staff	75%	1/21	44%	63%	75%	69%
% ar adnoddau gwybodaeth	4%	21/21	4%	13%	25%	4%
% ar offer ac adeiladau	4%	13/21	0%	4%	20%	5%
% ar gostau gweithredol eraill;	18%	11/21	0%	18%	37%	22%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	14/20	£0	£338	£17,432	£0
DA 15 Cost net am bob ymweliad	£1.27	19/21	£1.24	£1.82	£2.41	£1.71
DA 16 Oriau agor [#]						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	1/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.00%
b) % arosfannau llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	1/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.00%

* fesul pen y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg

[^] am bob 10,000 o'r boblogaeth breswyl

[#] Mae'r safleoedd yma wedi'u troi o chwith, sef mai 1 yw'r awdurdod sydd â'r sgôr isaf (perfformio orau)

3 Dadansoddi perfformiad

Mae'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd wedi'u rhannu yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad yn y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad (pan fo'n berthnasol) â rhai blwyddyn olaf y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Ateb anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Nid yw Blaenau Gwent eto wedi cynnal ei arolygon defnyddwyr, ac mae disgwyl i'r rhain gael eu cynnal o leiaf unwaith yn ystod y fframwaith. Mae'r holl lyfrgelloedd sefydlog yn darparu'r ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, yn ogystal â chefnogaeth dda i iechyd a lles; yn wir mae Blaenau Gwent yn un o dri awdurdod yn unig sy'n cynnig yr ystod lawn o wasanaethau a gweithgareddau a nodwyd ym mhob un o'i fannau gwasanaeth. Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddi a drefnwyd ymlaen llaw a hyfforddiant anffurfiol ychydig yn uwch na 2016-17, gan gynnal lefelau perfformiad.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Blaenau Gwent yn parhau i gyrraedd y targed yn ymwneud â mynediad rhwydd i fannau gwasanaeth, ac mae'n cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr sydd â gofynion arbennig ym mhob llyfrgell sefydlog. Mae'r cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a welwyd yn 2016-17 hefyd wedi'i gadw i raddau helaeth, gyda dim ond gostyngiad bychan

yn nifer yr ymweliadau corfforol yn gyffredinol, a chynnydd pellach yn nifer aelodau'r llyfrgell. Parhau i ostwng y mae rhith-ymweliadau, yn debyg i lawer o wasanaethau llyfrgell eraill ledled Cymru, er y nodir y gall mwy o weithgarwch ac ymgysylltu ar y cyfryngau cymdeithasol fod yn ffactor yma. Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi codi, ond fesul pen y boblogaeth mae'n dal ymhlith yr isaf yng Nghymru. Mae'r gostyngiad mewn benthyciadau llyfrau dros y cyfnod wedi'i briodoli yn bennaf i golli'r gwasanaeth llyfrgell ysgol, sydd wedi arwain at ostyngiad yn y benthycia plant.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae cyllid yn parhau i fod yn broblem o ran buddsoddi yn y gwasanaeth, ac o ganlyniad nid yw Blaenau Gwent yn dal yn cyflawni'r targedau ar gyfer derbyniadau cyffredinol na darpariaeth Gymraeg. Nodir bod y gronfa lyfrau wedi'i gosod ar lefel debyg i 2016-17, ond mae lefelau'r buddsoddiad yn y gyllideb deunyddiau yn dal i fod yn isel iawn o'u cymharu ag awdurdodau eraill, ac mae hyn yn debygol o fod yn ffactor sy'n cyfrannu at lefel isel y benthyciadau llyfrau fesul pen. Mae'n galonogol serch hynny bod yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol wrthi'n trafod lefel briodol y cyllid, ac nad yw'r gostyngiad mawr yn y gyllideb deunyddiau a gofnodwyd yn ystod blwyddyn olaf y bumed fframwaith wedi parhau. Calonogol hefyd yw bod y gwariant ar adnoddau ar gyfer plant a deunyddiau Cymraeg wedi codi'n sylweddol, gydag ymdrechion amlwg i gael y defnydd gorau posibl o'r casgliadau Cymraeg. Mae perfformiad mewn perthynas â mynediad ar-lein yn dal i fod tua'r canolrif neu'n uwch, gyda'r defnydd a gofnodwyd ar TGCh ymhlith yr uchaf yng Nghymru, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio yn parhau i fod yn ddirifol o isel, gyda gostyngiad bychan yn y lefelau cyffredinol sy'n cael eu priodoli i gau'r gwasanaeth llyfrgell ysgol, er nad oes newid i strwythur ac oriau staff y prif wasanaeth. Caiff hyn ei liniaru drwy ddefnydd priodol o staff a gyflogir yn uniongyrchol gan asiantaethau eraill ac adrannau eraill yr awdurdod, a chyfraniad staff â chymwysterau cytras yn yr Ymddiriedolaeth ehangach. Roedd y ddwy swydd sy'n gofyn am gymhwyster llyfrgell wedi'u llenwi'n briodol yn ystod y flwyddyn, ond mae nifer y staff proffesiynol yn parhau ymhlith yr isaf yng Nghymru fesul pen y boblogaeth. Mae ffocws cryf ar hyfforddiant staff yn enwedig ym maes gofal cwsmer a gwybodaeth iechyd, gan gyrraedd y targed ar gyfer cyfran yr amser staff a dreulir mewn datblygiad proffesiynol/personol. Cafwyd cynnydd bach yn nefnydd y gwasanaeth ar wirfoddolwyr, gyda 29 o wirfoddolwyr a phob un ohonynt yn rhoi 83 awr o'u hamser ar gyfartaledd.

Mae cyfanswm y gwariant refeniw wedi gostwng ychydig ers 2016-17, gyda gwariant fesul pen y boblogaeth yn is na'r canolrif. Mae gwariant ar adnoddau gwybodaeth yn parhau i fod yr isaf yng Nghymru. Nid yw cyfanswm yr oriau agor blynyddol wedi newid, ac mae'r targed hwn wedi'i gyrraedd. Ni wnaeth Blaenau Gwent adrodd am unrhyw oriau agor heb staff, cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny na cholli danfoniadau i'r cartref yn ystod 2017-18.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i'r awdurdodau adrodd sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru.

Adroddodd Blaenau Gwent am ystod o wasanaethau, gan nodi sut y mae'r rhain yn cydfynd â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae mentrau newydd yn cynnwys treialu cymorth llythrennedd ariannol mewn partneriaeth â NatWest Bank. Canolbwyntia gwasanaethau eraill ar wella iechyd, materion yn ymwneud ag ynni a'r amgylchedd, cynnal y Gymraeg a'i diwylliant a darparu mynediad at adnoddau'r cyngor, gyda llyfrgelloedd yn lleoliad ar gyfer canolfannau aml-wasanaeth. Nodir bod y gwaith allgymorth gyda grwpiau pobl ifanc a grwpiau dan anfantais gymdeithasol yn cyfrannu at gyflawni Cymru fwy cyfartal. Mae cyfraniad y gwasanaeth tuag at gynhwysiant digidol hefyd yn arbennig o gryf.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad a chynlluniau'r awdurdod ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ganlynol, dywedodd Blaenau Gwent – yn sgil adolygiad Ionawr 2017 o'r gwasanaeth – fod yr Ymddiriedolaeth a'r awdurdod lleol wedi cytuno na ddylid colli darpariaeth yn 2017/18. Fodd bynnag, mae posibilrwydd y gweithredir arbedion yn y dyfodol fel rhan o gynllunio ariannol tymor canolig. Cytunwyd ar gasgliad o egwyddorion lefel uchel sy'n cynnwys gwelliannau i'r gymuned, moderneiddio gwasanaethau, cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd cost. Mae ymrwymiad hefyd i archwilio ymhellach ar gydleoli gwasanaethau, y cyfleoedd a gynigir gan fodolau darparu eraill, a chefnogaeth ar gyfer cynhwysiant digidol. Mae cynllunio strategol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth yn sylweddoli rôl ganolog y gwasanaeth llyfrgell wrth gyflawni ei nodau, ond bydd buddsoddi digonol yn hanfodol wrth sicrhau digon o gapasiti i gael rhagor o fanteision i'r gymuned leol.

6 Casgliad

Mae'r gwasanaethau llyfrgell ym Mlaenau Gwent wedi'u darparu gan Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin ar ran yr awdurdod lleol. Er bod hyn yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd, ymddengys fod y gwasanaeth yn dal ar drugaredd newidiadau i lefel y gwasanaeth a'r gyllideb, a hynny'n effeithio'n arbennig ar ei allu i gyflawni rhai o'r dangosyddion sy'n seiliedig ar adnoddau. Mae staff yn llwyddo i gyflawni cryn dipyn o ystyried y cyfyngiadau ar gapasiti a rhaid eu canmol am hynny, er na ddylid ychwaith ddiystyru cyfraniad staff o wasanaethau cysylltiedig. Er bod y ddarpariaeth ar gyfer 2017/18 wedi'i chynnal, mae'r sefyllfa wrth fynd ymlaen yn llai clir ac mae posibilrwydd y gweithredir rhagor o arbedion gwasanaeth llyfrgell yn y tymor canolig. Gan fod lefelau staff ac adnoddau eisoes ar lefelau isel iawn, mae hyn yn peri cryn bryder ynghylch gwydnwch a pherfformiad y gwasanaeth. Bydd angen i'r gwasanaeth gynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau y gall barhau i ddarparu ar gyfer ei gymunedau a chyfrannu at gyflawni blaenoriaethau a nodau strategol ehangach llywodraethau lleol a chenedlaethol.